


"Y Cadno aw ei Fywyd, a'r Cwn am fyn'd ag e'."

# CAN NEWYDD.

*Gan JOHN JENKINS, (Cerngoch), PENBRYNMAWR.*

DESGRIFIAD O HELWRIAETH A GORCHESTWAITH BYTHEUAID T. H. R. HUGHES, Esq., NEUADDFAWR, CARDIGANSHIRE, AR YR 21ain O CHWEFROR, 1881.

*Prif Destyn Barddonol yn Eisteddfod Brynmadog, Mehefin yr 22ain, 1881.*

Nid oes mewn cof na hanes am y fath helwriaeth, yn y cymydogaethau hyn, ac a cafwyd ar y dydd uchod. Cyfarfyddwyd ar lan Cwm Cul, lle yr oedd oddeutu 6 erw o larch ieuaingc yn tyfu, ac eithin, drain, a dyrysni, wedi cydwai yn garsi trwy yr holl le. Yr oedd yn dinasu yno oddeutu haner dwsin o gadnoaid gwylltion mynyddau Gwalia. Bu y cwn yn hela fel berwol don am yn agos awr cyn cael un allan. Ar ol hela am ddwy awr o un cwm i'r llall, a hela un neu ddau i'r ddaear, o'r diwedd, torodd allan y dewraf o'r dewrion, a bu yn ymdrechfa ryfeddol o gydradd rhwng y cwn ac yntau am chwech awr o amser. Ymladdodd y cadno yn ogoneddus, ac os ydyw dewrder yn hawlio cofadail y mae hwn. Helwyd am wyth awr, heb o gwbl dros ugain mynud o rhwystr (check). Ac i fesur y ffordd wnaeth y cwn redeg, wrth y tir neu trwy radd y cyflymdra, nid ydyw dan 76 o filldiroedd. Rhedasant am y tair awr gyntaf gyda y cyflymder o ddeuddeg milldir yr awr, ac o hyny allan o ddeg i chwech milldir yr awr. Er profi y cyflymdra, yr oedd rhai o'r marchogion allan o ager cyn un o'r gloch, a gwnaeth rhai ffres ymuno wedi hyny, ond ni fu y rhai hyny yn ddigon hyf ac hir anadlog i weled y diwedd. Nid ydyw yr heliwr mwyaf profedig yn disgwyl gweled y fath redfa eto. Gwelwch y manylion gan "Whippo Will" yn y "Field" am Mawrth y 5ed, 1881.

Ar unfed dydd ar hugain
  O Chwefror *Eight One*,
'Roedd *meet* gan Hughes, y Neuadd,
  A'i gwn, yn cwm Penlan;
Daeth yno, 'nol ei arfer,
  Ar gyfer deg o'r gloch,
A'r gaseg lâs o dano,
  A throsto'r hugan goch.

A meet rhagorol gaed,
  'Roedd yno wyr o waed,
A llawer o farchogion,
  A llu o ddynion traed.

Y cwn 'n ol dechreu hela,
  Ni fuont yma'n faith
Cyn profi'n ddigon eglur
  Eu nhatur at y gwaith;
Eu lleisiau ffyrnig nerthol,
  Yn brawf digonol gaed,
Heblaw eu golwg llidiog,
  Fod llwynog ar ei draed.

A thyma'i 'n "Dally ho,"
  Nes seinio'r cwm a'r fro;
Gan lawer iawn o'r cwmni
  Y gwelwyd tri ar tro.